Gofynnwch am/Ask for **Deborah Weston**
Ein Cyf/Our Ref **DW/AFK**
Eich Cyf/Your Ref
Ffôn/Tel **01633 210631**
Rhif Uniongyrchol/Direct **01633 210631**
DX
E-bost/E-mail school.reorg@newport.gov.uk

Gwasanaeth Addysg
Education Service

Canolfan Ddinesig
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR

1 Mawrth 2021

Annwyl Randdeiliad

Cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fairoak yn un ysgol feithrin ar safle presennol Ysgol Feithrin Fairoak a hynny o fis Medi 2021.

Mae'r ymgynghori ffurfiol bellach wedi dod i ben ar y cynnig gan Gyngor Dinas casnewydd i gyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fairoak yn un ysgol feithrin ar safle bresennol Ysgol Feithrin Fairoak a hynny o fis Medi 2021.

Ystyriodd Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a Sgiliau yr holl safbwyntiau a fynegwyd a'r ymatebion a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol a phenderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynnig gan nad oedd yr un o'r ymatebion yn rhoi digon o reswm dros gredu y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar ddarpariaeth feithrin, ar y gymuned nac ar ysgolion eraill.

Rhoddodd y ddogfen ymgynghori resymau dros y cynnig megis lleoedd gwag sylweddol ar draws y ddau leoliad, sefyllfa o ran diffyg yn y gyllideb yn ysgol Feithrin Kimberley, digonolrwydd cyffredinol mannau meithrin yn ardal Malpas ac yng Nghasnewydd yn gyffredinol, a nododd y bydd y Dosbarth Cyfathrebu yn cael ei gadw. At hynny, nodir na ragwelir unrhyw effaith andwyol o ran darpariaeth feithrin nac ar unrhyw leoliadau eraill.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol tynnwyd sylw at effaith bosibl ar niferoedd disgyblion mewn ysgol gynradd leol, ac mae'r Cyngor wedi cadarnhau ei fod wedi ymrwymo i weithio gyda'r ysgol honno i liniaru'r risg yma.

Cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 1 Rhagfyr 2020 am gyfnod o 37 diwrnod a ddaeth i ben 6 Ionawr 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cam cynnig statudol.

Penderfynwyd yn derfynol gan Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a Sgiliau. Mae'n bleser gennyf gadarnhau y caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r amlinelliad a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r hysbysiad statudol o fis Medi 2021.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn:
www.casnewydd.gov.uk/ad-drefnuysgolion

Yn gywir



Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg